Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

Ffeithlen Gwlad: **Mauritius** tudalen 1 o 3

Mauritius, Craft Aid, Siwgwr



Mauritius

Geography: Mae Gweriniaeth Mauritius yn genedl ar ynys yng Nghefnfor India i'r Dwyrain o Fadagascar ac yn rhan o gyfandir Affrica. Yn ogystal â'r ynys fwyaf, Mauritius, mae'r weriniaeth yn cynnwys ynysoedd Cargados, Carajos, Rodrigues ac Ynysoedd Agalega i'r Gogledd a Dwyrain o Fauritius. Mae riffau cwrel eang o amgylch ynys Mauritius. Mae 46% o'r tir yn wastadoedd tir isel a thua canol yr ynys mae llwyfandir uwch y cyfeirir ato fel y tirfyrddau. Mewn rhai mannau mae mynyddoedd ar ffiniau'r tirfyrddau

Gwers gyflym mewn Creole:

Helo - Boniou (bon-jew)
Hwyl fawr - Orevwa (or-eh-vwah)

Iaith

Saesneg yw un o'r ieithoedd swyddogol er mai dim ond ychydig iawn sy'n ei siarad. Yr iaith swyddogol arall yw Ffrangeg ond mae dros 80% o'r boblogaeth yn siarad Creole. Mae 12.1% yn siarad Bhojpuri sy'n adlewyrchu poblogaeth Indiaidd fawr yr ynys. Siaredir hefyd dair iaith Affricanaidd draddodiadol.

Photo: Traidcraft/Mark Winter

Wyddech chi?

Sega yw'r gerddoriaeth llên gwerin leol sydd â gwreiddiau Affricanaidd ac sy'n unigryw i Fauritius. Yr offerynnau cerdd traddodiadol yw offerynnau taro o groen gafr o'r enw ravane a thrionglau metal.

Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

Ffeithlen Gwlad: **Mauritius** tudalen 2 o 3

Mauritius, Craft Aid, Siwgwr

Wyddech chi?

Ysbrydolodd y Dodo, aderyn prin a oedd i'w gael ym Mauritius yn unig yn y 17 ganrif, Lewis Carroll i ysgrifennu ei lyfr enwog 'Alice's Adventures in Wonderland' ym 1865

Ystyr y Faner

Mae baner Mauritius wedi bodoli ers annibyniaeth ym 1968. Mae'r coch yn adlewyrchu annibyniaeth, glas yn cynrychioli lliw Cefnfor India, melyn yn symbol o ddyfodol disglair a gwyrdd yn cynrychioli llystyfiant ac amaethyddiaeth toreithiog ffrwythlon yr ynys gydol y flwyddyn

Hinsawdd Mae hinsawdd Mauritius yn drofannol gyda dau brif dymor; tymor sych gydag ychydig o law o fis Mai i fis Tachwedd gyda mis Gorffennaf y mis oeraf, pan fydd y tymheredd ar gyfartaledd yn 16° C a 22° C a thymor gwlyb o fis Tachwedd i fis Mai. Chwefror yw'r mis poethaf pan fydd y tymheredd yn codi ar gyfartaledd i rhwng 22°C a 27° C.

Ar gyfartaledd bydd 200cm o law'r flwyddyn yn disgyn ar yr ynys gyfan. Yn ogystal â'r amrywiaethau tymhorol mae hefyd amrywiaethau rhanbarthol rhwng yr ardaloedd tir isel 'gwastadeddau'r iseldir' a'r 'tirfyrddau' uwch yng nghanol yr ynys.

Poblogaeth: **1.3 miliwn**
Dwysedd Poblogaeth: **603 o bobl y cilometr sgwâr**
Llythrennedd: **87.5%**
Plant wedi'u cofrestru mewn Addysg Gynradd: **93.1%**
Plant wedi'u cofrestru mewn Addysg Uwchradd: **80.1%**
Achosion HIV / AIDS yn y boblogaeth (15 – 49 mlwydd oed) : **1.7%**

Crefydd: Does gan Fauritius ddim crefydd sydd yn y mwyafrif. Mae 48% o'r boblogaeth yn Hindŵ, 23.6% yn Gatholigion Rhufeinig, a 16.6% pellach yn Fwslim ac 8.6% gyda chredoau Cristnogol eraill

Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

Ffeithlen Gwlad: **Mauritius** tudalen 3 o 3

Mauritius, Craft Aid, Siwgwr

Hanes

10th Century	1598	1715	1810
Neb yn byw ar yr ynys, cael ymweliad gan forwyr y Phoenicia, Malay, Swahili ac Arab.	Yr Iseldiroedd yn hawlio'r ynys ond mae'r anheddiad yn methu	Ffrainc yn hawlio Mauritius trwy'r Cwmni Dwyrain India Ffrengig, ac yn sefydlu trefedigaeth.	Prydain yn ymosod ac yn meddiannu

1964	1968	1979	1990
Gwrthryfela ethnig rhwng yr Hindŵs a'r Creoles	Mauritius yn ennill annibynniaeth o Brydain	Mauritius yn gofyn am gymorth gyda diffyg enfawr o'r IMF a Banc y Byd	Mauritius yn dod yn weriniaeth a Cassam Uteem yw'r arlywydd cyntaf i gael ei ethol.

Canolbwynt ar y Wlad: Siwgr

Hanes Cynhyrchu Siwgr: Mae hinsawdd drofannol Mauritius yn dda ar gyfer cynhyrchu siwgr. Cyflwynwyd cynhyrchu siwgr i Fauritius yn ystod cyfnod yr Iseldirwyr yn y 17 ganrif a chafodd y planhigfeydd eu hymestyn yn ystod teyrnasiad y Ffrancwyr a Phrydain yn y 18fed a 19eg ganrif. Cafodd ardaloedd mawr o goedwig frodorol eu clirio i wneud lle i'r planhigfeydd, er niwed i lawer o rywogaethau lleol. Fodd bynnag, mae cnwd o gansen siwgr yn gorchuddio'r wyneb yn dda ac yn erydu llai ar y pridd.

Diwydiant Siwgr Mauritius: Mae tua 90% o dir Mauritius sydd wedi'i drin yn cynhyrchu siwgr. Bob blwyddyn bydd Mauritius yn cynhyrchu 630,000 tunnell o siwgr, gyda 500,000 tunnell yn cael ei allforio. Yn y 1960au roedd yr economi'n fregus gan ei fod yn dibynnu'n bennaf ar siwgr. Fodd bynnag, mae'r refeniw o siwgr wedi helpu datblygu sectorau eraill megis gweithgynhyrchu, sydd erbyn hyn, yn gyfrifol am 40% o'r enillion allforio. Daw 25% drwy allforio siwgr.